

Memorandwm Esboniadol i Reoliadau Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 (Diwygiadau Canlyniadol i Is-Ddeddfwriaeth) (Diwygio) 2022

Paratowyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan Grŵp Newid Hinsawdd a Materion Gwledig Llywodraeth Cymru a chafodd ei osod ger bron Senedd Cymru gyda'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

Datganiad y Gweinidog

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi golwg deg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 (Diwygiadau Canlyniadol i Is-Ddeddfwriaeth) (Diwygio) 2022.

Julie James
Gweinidog Newid Hinsawdd
25 Hydref 2022

RHAN 1

1. Disgrifiad

Mae'r Memorandwm Esboniadol ("ME") hwn yn ymwneud â Rheoliadau Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 (Diwygiadau Canlyniadol i Is-Ddeddfwriaeth) (Diwygio) 2022 ('y *Rheoliadau Diwygio*'). Mae'r Rheoliadau Diwygio'n gwneud newidiadau mân a thechnegol i Reoliadau Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 (Diwygiadau Canlyniadol i Is-Ddeddfwriaeth) 2022 (O.S. 2022/907 (Cy.198)('Rheoliadau 2022'), a gafodd eu gosod ym mis Awst 2022.

2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Cafodd Rheoliadau Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 (Diwygiadau Canlyniadol i Is-Ddeddfwriaeth) 2022 eu hystyried gan y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad yn eu cyfarfod ar 26 Medi 2022 a chyhoeddodd adroddiad yn cynnwys pwyntiau technegol. Mae'r Rheoliadau Diwygio yn gwneud gwelliannau i fynd i'r afael â phedwar pwynt a wnaed gan y Pwyllgor. Mae'r Offeryn Statudol hwn yn cael ei gyhoeddi'n rhad ac am ddim i'r holl dderbynwyr hysbys.

3. Cefndir Deddfwriaethol

Mae'r pwerau sy'n galluogi gwneud y rheoliadau hyn wedi eu cynnwys yn adrannau 255 o Ddeddf 2016.

Mae'r OS hwn yn cael ei wneud o dan y weithdrefn penderfyniad negyddol.

4. Pwrpas y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

Mae Rheoliadau Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 (Diwygiadau Canlyniadol i Is-Ddeddfwriaeth) 2022 yn gwneud gwelliannau i is-ddeddfwriaeth o ganlyniad i ddarpariaethau Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 a ddaw i rym ar 1 Rhagfyr 2022.

Mae'r Rheoliadau Diwygio'n gwneud newidiadau mân a thechnegol i Reoliadau 2022 er mwyn gwneud yr olaf mor eglur ac ystyrlon â phosibl ac er mwyn sicrhau bod y gyfraith yn gyson.

5. Ymgynghori

Nid oes ymgynghoriad ffurfiol wedi'i gynnal gan fod y rheoliadau hyn ond yn gwneud newidiadau mân a thechnegol i ddiwygiadau canlyniadol blaenorol.

6. Asesiad o'r Effaith Rheoleiddio

Mae angen y newidiadau technegol a wneir gan y rheoliadau hyn i newid geiriad y gyfraith yn hytrach na newid ei diben neu ei heffaith. O'r herwydd, ni chynhaliwyd RIA i gyd-fynd â'r rheoliadau hyn. Mae hyn yn unol â'r polisi a nodir yng Nghod RIA Gweinidogion Cymru ar gyfer is-ddeddfwriaeth.